Ffactorau y dylid eu hystyried wrth gymeradwyo / pennu cynigion trefniadaeth ysgolion

CYNLLUNIO AR GYFER DYFODOL ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG YN ARDAL PENFRO

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
1.3 Ansawdd a safonau mewn addysg Dylai cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall. Gan gyfeirio at bum maes arolygu Fframwaith Arolygu Cyffredin (o fis Medi 2017) Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn), dylent ystyried effaith debygol y cynigion ar y canlynol yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac mewn unrhyw fath o ysgol neu sefydliad addysgol sy'n debygol o gael ei (h)effeithio.	
• Safonau a chynnydd grwpiau penodol ac mewn medrau yn gyffredinol; • Lles ac agweddau at ddysgu; • Addysgu a phrofiadau dysgu (ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a darpariaeth medrau; • Gofal, cymorth ac arweiniad (olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu); ac • Arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol, a defnydd o adnoddau) • Dylai cyrff perthnasol roi sylw penodol i effaith y cynigion ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig.	Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn y ddwy ysgol (yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig a Gelli Aur / Golden Grove) gan y bydd y pwyslais a'r adnoddau yn canolbwyntio ar un iaith yn bennaf. O ran grwpiau penodol, bydd yr ysgol yn gallu trefnu darpariaeth well i ddiwallu anghenion dysgwyr gyda staff arbenigol sy'n deall medrau ieithyddol disgyblion. Bydd lles ac agweddau yn gwella trwy ddatblygu continwwm un iaith. Bydd ansawdd yr addysgu yn cael ei gynnal yn gyffredinol, ond efallai na fydd y cydweithio rhwng y ddwy ffrwd mor gryf. Bydd addysgu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Cwricwlwm Newydd dros y blynyddoedd nesaf, a bydd y cynnig hwn yn galluogi'r ysgolion i ddewis cael gwahanol flaenoriaethau ysgol i weddu i anghenion athrawon yn y ddwy ysgol. Bydd athrawon yn gallu canolbwyntio ar iaith yr ysgol ac yn cyflwyno cwricwlwm llawn. Bydd addysgu yn gallu darparu digon o gyfle i gyflwyno Saesneg yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg, ac yn parhau i ddatblygu'r Gymraeg yn yr ysgol cyfrwng Saesneg. Er nad oes yna unrhyw fanteision uniongyrchol i'r ddwy ysgol, bydd gan staff ddealltwriaeth well o'r medrau ieithyddol sydd eu hangen yn yr ysgol y cânt eu cyflogi ynddi. Bydd cyfle i greu tîm arwain yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd a fydd yn arddel yr ethos a'r athroniaeth cyfrwng Cymraeg yn llawn tra'n darparu gwerth da am arian a defnydd da o adnoddau. Hefyd, bydd cyfle i gryfhau'r tîm arweinyddiaeth ymhellach yn yr ysgol cyfrwng Saesneg, a fydd yn mynd â nhw ymlaen ar eu taith i wella ymhellach. Ni fydd y naill ysgol na'r llall yn trefnu darpariaeth sy'n cael ei chydnabod gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gedwir ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Fel rhan o'r broses ymgynghori, cafodd copi o adroddiad diweddaraf Estyn ar Ysgol Gelli Aur (Gorffennaf 2018) ei gynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori yn yr un modd â'r barnau a'r argymhellion amrywiol. Dylid nodi bod Estyn wedi datgan ym mis Mawrth 2020, y barnwyd bod yr ysgol "*wedi gwneud cynnydd digonol wrth*

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
	fynd i'r afael â'r argymhellion o arolygiad Adran 28" a bod yr ysgol wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn.
Dylai cyrff perthnasol ystyried gallu'r ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion hefyd i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen, ac ym mhob cyfnod allweddol addysg. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys ansawdd cyflwyno'r cwricwlwm a'r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn.	Bydd y ddwy ysgol yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer pob dysgwr trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fel rhan o'i ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Estyn, "*bydd yr ysgol yn gallu cyflwyno cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod sylfaen, ac yng nghyfnod allweddol 2 hefyd. O ganlyniad, mae'n haeru y bydd hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at wella agweddau at ddysgu a lles trwy ddarparu un continwwm iaith cyson yn yr ysgol …Mae'r cynigiwr yn haeru'n gryf y bydd y cynnig yn darparu cyfle i greu tîm arwain o fewn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, a fydd yn deall ac yn gweithredu athroniaeth addysgu cyfrwng Cymraeg, a bydd hefyd yn darparu cyfle i gryfhau arweinyddiaeth yn yr ysgol cyfrwng Saesneg*".
Pan fydd cynigion yn cynnwys trosglwyddo dysgwyr i ddarpariaeth amgen, fel arfer, dylai fod tystiolaeth y byddai'r ddarpariaeth amgen yn cyflawni deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf gyfwerth â'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r dysgwyr hynny ar hyn o bryd (gan gynnwys dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig). Gallai cyngor gan Estyn gael ei ddefnyddio'n rhesymol fel tystiolaeth mewn perthynas â darpariaeth amgen sy'n newydd sbon. Dylai cynigwyr sicrhau bod y tarfu ar ddysgwyr yn cael ei leihau i'r eithaf.	Mae'r cynnig ynglŷn â chreu ysgol cyfrwng Cymraeg annibynnol yn lle'r ddarpariaeth ffrwd ddeuol bresennol yn Ysgol Gelli Aur. O ganlyniad, bydd Ysgol Gelli Aur yn dod yn ysgol cyfrwng Saesneg, fel y diffinnir gan Lywodraeth Cymru yn ei dogfen wybodaeth "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" (Llywodraeth Cymru 023/2007). Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynnig hwn, dywedodd Estyn ei fod o'r farn ei fod "*o leiaf yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg… ac mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r tarfu posibl ar ddisgyblion presennol, ac wedi cymryd camau addas i leihau unrhyw effaith arnyn nhw i'r eithaf*".
Wrth asesu effaith y cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg a pha mor effeithiol y cyflwynir y cwricwlwm, dylai cyrff perthnasol ystyried unrhyw gyngor perthnasol gan Estyn, cyfeirio at adroddiadau diweddaraf Estyn neu dystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad, ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol	Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynnig hwn, rhoddodd Estyn yr ymateb canlynol: "*Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth ysgolion.* *Mae'n cyfeirio'n berthnasol at ddeilliannau adroddiad arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Gelli Aur, ei chategori a'i band cymorth.* *Mae'n dod i'r casgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysgu, lles, profiadau dysgu neu arweinyddiaeth. Mae'n haeru'n gryf y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion. Mae'n datgan yn deg y bydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn gallu darparu'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr gyda staff arbenigol sy'n deall medrau ieithyddol*

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
ar effeithiolrwydd ysgol.	*disgyblion. Bydd yr ysgol yn gallu cyflwyno cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod sylfaen, ac yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae'n haeru y bydd hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at wella agweddau at ddysgu a lles trwy ddarparu un continwwm iaith cyson yn yr ysgol. Mae'r cynigiwr yn haeru'n gryf y bydd y cynnig yn darparu cyfle i greu tîm arweinyddiaeth o fewn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd a fydd yn deall ac yn gweithredu athroniaeth addysgu cyfrwng Cymraeg, a bydd hefyd yn darparu cyfle i gryfhau arweinyddiaeth yn yr ysgol cyfrwng Saesneg*". Ochr yn ochr â'r ymatebion eraill a ddaeth i law, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth briodol i ymateb Estyn cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig.
1.4 Angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod nifer digonol o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran nifer, cymeriad ac offer i ddarparu cyfle o ran addysg briodol1 ar gyfer yr holl ddisgyblion. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drylwyr ac yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys y cyrff crefyddol2 priodol ar gyfer ysgolion sy'n gwasanaethu eu hardal sydd â chymeriad crefyddol dynodedig. Yn sgil yr uchod, dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol:	
Pan gynigir cau ysgol, lleihau capasiti neu gwtogi ar ystod oedran:	
Ddim yn berthnasol	
Pan gynigir agor ysgol newydd, cynyddu capasiti neu ehangu ystod oedran;	
• bod tystiolaeth o angen / galw yn yr ardal am leoedd ychwanegol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, gan gyfeirio at yr ysgol neu gategori iaith arfaethedig yr ysgol, ei chymeriad crefyddol dynodedig, a rhywedd y disgyblion a dderbynnir (h.y. cydaddysgol / un rhyw);	Cyn ffurfio'r cynnig hwn, cynhaliodd y Cyngor arolwg o'r galw yn ardal Penfro. Cyflwynwyd canfyddiadau'r arolwg hwn, ynghyd â nifer o ystyriaethau eraill yn ymwneud â darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gerbron un o gyfarfodydd y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2019. Daeth i'r casgliad fod nifer o ffactorau perthnasol wedi dangos bod galw parhaus am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac y byddai ehangu'r ddarpariaeth mewn unrhyw ffordd yn cael ei fodloni orau mewn ysgol cyfrwng Cymraeg annibynnol newydd, yn hytrach nag yn y ddarpariaeth ffrwd ddeuol bresennol. Mae datblygiadau tai sylweddol yn debygol o ddigwydd yn ardal Penfro a Doc Penfro yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fel yr amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori i'r cynnig hwn, cyfeiriodd Cyd-astudiaeth

[1] Adran 14 Deddf Addysg 1996.

[2] Yn achos ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig, corff crefyddol priodol yw'r awdurdod esgobaethol priodol, neu, yn achos ysgolion eraill, y corff sy'n cynrychioli'r grefydd neu'r enwad crefyddol a nodir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 69(3) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
	Argaeledd Tir ar gyfer Tai y Cyngor ar gyfer 2018 at y ffaith fod 23 o anheddau wrthi'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, a bod 477 uned arall yn debygol o gael eu cwblhau ymhen pum mlynedd. Hefyd, mae'r safleoedd ymgeisiol a nodwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn 2021-2033 (LDP2) wedi arwain at bryderon ynghylch gallu ysgolion i ddarparu ar gyfer nifer bosibl y disgyblion. O ystyried nifer bosibl y disgyblion sy'n deillio o'r holl ddatblygiadau hyn, ystyrir bod digon o dystiolaeth o angen.
• p'un a fydd cynigion yn gwella mynediad ar gyfer disgyblion anabl yn unol â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd gan yr holl adeiladau sy'n elwa o fuddsoddiad cyfalaf yn hollol hygyrch, a bydd hyn yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr un modd, bydd gan adeiladau newydd gyfleusterau TG a rhwydwaith gwell i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn well trwy TG.
1.5 Darparu adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill Mae'n bwysig fod cyllid ar gyfer addysg yn gost-effeithiol. Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â darparu adnoddau ar gyfer addysg:	
• beth fydd effaith y cynigion ar leoedd dros ben yn yr ardal;	Rhagwelir y bydd y cynnig yn cynyddu lleoedd dros ben yn y tymor byr, yn yr ysgol newydd arfaethedig ac yn Ysgol Gelli Aur. Fodd bynnag, dylid nodi mai'r amcan yma yw creu capasiti cyfrwng Cymraeg mewn ysgol annibynnol, ac o ystyried llwyddiant ysgolion eraill o ran denu disgyblion, yn enwedig yn Ysgol Caer Elen ac Ysgol Hafan y Môr, mae'n rhesymol disgwyl y bydd capasiti yn cael ei ddiwallu ar ôl 4-5 mlynedd. Hefyd, mae datblygiadau tai sylweddol yn debygol o ddigwydd yn ardal Penfro a Doc Penfro yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fel yr amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori i'r cynnig hwn, cyfeiriodd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai y Cyngor ar gyfer 2018 at y ffaith fod 23 o anheddau wrthi'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, a bod 477 uned arall yn debygol o gael eu cwblhau ymhen pum mlynedd. O ystyried nifer bosibl y disgyblion sy'n deillio o'r datblygiadau hyn, ystyrir y bydd y lleoedd dros ben sy'n deillio o'r datblygiad yn cael eu dileu gan y twf naturiol yn y boblogaeth.
• p'un a yw cynigion yn ffurfio rhan o Raglen Buddsoddi mewn Ysgolion yr awdurdod lleol ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac yn cyfrannu at sicrhau ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac ar gyfer rheolaeth strategol well yr ystâd ysgolion.	Nid yw'r cynnig yn ffurfio rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael grant cyfalaf penodol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ym mis Mawrth 2018, ac er mwyn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru, gwahoddwyd pob un o gynghorau Cymru i gyflwyno ceisiadau am Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg gwerth £30 miliwn, a ariennir 100%. Dywedwyd bod y cyllid grant wedi'i anelu at brosiectau cyfalaf "*a fydd yn cyfrannu'n amlwg at fodloni nod Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*". Cyflwynwyd cais yn ddiweddarach i Lywodraeth Cymru ar 31 Mai 2018. Ym mis Hydref 2018, cawsom wybod am ganlyniad y cais, a dywedwyd wrthym na ellid dyfarnu unrhyw gyllid bryd hynny ond y byddai ein cais yn cael ei roi ar restr wrth gefn yn dibynnu ar a fyddai cyllid pellach ar gael.

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
	Ym mis Mai 2019, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod cyllid bellach ar gael a bod 'cytundeb mewn egwyddor'. Ym mis Medi 2019, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod £5.9 miliwn ar gael ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 newydd gyda darpariaeth gofal plant ym Mhenfro. Yn ddiweddarach, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn dyfarnu cyllid ar 18 Mai 2020 fel a ganlyn: Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg £5,670,780 Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant £980,000 **CYFANSWM** **£6,650,780**
Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â chyllid hefyd:	
• costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd o leiaf, a ph'un a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael;	Caiff pob ysgol ei hariannu yn unol â fformiwla sy'n seiliedig ar ddisgyblion yn bennaf, a hwn yw'r cyllid sy'n cael ei ddirprwyo i gyrff llywodraethu ysgolion ar gyfer gwariant refeniw ysgolion. Yn ei hanfod, byddai'r ysgol newydd yn cael ei chyllid ar sail nifer y disgyblion ar y gofrestr, ac ar sail ffactorau eraill, fel adeiladau ac ardaloedd safleoedd. Mae'r cyllid angenrheidiol ar gael. Cyfanswm goblygiadau refeniw'r cynnig hwn yw oddeutu £154,000, sydd wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y byddai pob un o'r disgyblion sy'n mynychu ffrwd Gymraeg Ysgol Gelli Aur yn trosglwyddo i'r ysgol newydd; mae hyn hefyd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth fod y cynnig ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r gost ychwanegol hon yn bennaf mewn perthynas â chyllid ar gyfer costau adeiladau, a chyllid ar gyfer arweinyddiaeth. O ran costau adeiladau, mae'r rhain yn cynnwys gwerth yr Ardreth Annomestig Genedlaethol sy'n tueddu i fod yn sylweddol uwch ar gyfer adeiladau ysgol newydd.
• costau cludiant ychwanegol o ganlyniad i'r cynigion; ***Dylai** cynigwyr ystyried y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a **dylai** geisio cyngor Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn perthynas â'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar gostau cludiant cysylltiedig a'u*	Ni ragwelir y bydd costau cludiant ychwanegol sylweddol yn codi o ganlyniad i'r cynnig. Bydd trefniadau cludiant yn unol â'r gyfraith a pholisi'r Cyngor ei hun ar Gludiant i'r Ysgol. Mae hyn yn datgan y bydd y Cyngor yn darparu cludiant lle mae plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg gynradd, yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i ysgol y dalgylch y dynododd yr Awdurdod ei bod yn addas ar gyfer cyfeiriad cartref y disgybl, neu i'r ysgol addas agosaf fel a bennwyd gan y Cyngor. I ddechrau, bydd yr ysgol newydd yn rhannu dalgylch Ysgol Gelli Aur, ond gellir ymestyn hyn maes o law o ganlyniad i roi Cynllun Strategol newydd Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar waith.

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
fforddiadwyedd.	
• costau cyfalaf y cynigion a ph'un a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael;	Bydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 3-11 newydd yn cael ei hadeiladu fel rhan o'r cynnig hwn. Ariennir hyn yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i grantiau cyfalaf penodol i gynorthwyo ag ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant. Mae'r Cyngor wedi cael cadarnhad y bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru; cyfanswm y buddsoddiad hwn yw £6.6 miliwn.
• graddfa unrhyw arbedion net arfaethedig (gan ystyried costau refeniw ysgol, costau cludiant a chostau cyfalaf); *Mewn perthynas â chynigion lle mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw (er enghraifft i gefnogi prosiect ailfodelu, adnewyddu neu adeilad newydd sylweddol),* ***dylid*** *cyfrifo costau ac arbedion y cynigion dros oes yr adeilad perthnasol, ac o gymharu â'r costau a'r arbedion yn gysylltiedig â chynnal y sefyllfa bresennol.*	Ar ôl ystyried costau cyllid dirprwyedig, costau cludiant a chostau cyfalaf yr ysgolion (gan gynnwys y rhai a nodwyd dros oes yr ysgolion newydd arfaethedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol), ni fydd unrhyw arbedion refeniw yn codi o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd cyllid refeniw a ddarperir i'r ddwy ysgol yn cyd-fynd â'r fethodoleg fformiwla gytûn ar gyfer ysgolion cynradd, ac mae cost cyfalaf darparu'r ysgol newydd arfaethedig yn cael ei bodloni gan grant cyfalaf o 100% gan Lywodraeth Cymru.
• p'un a fyddai'r ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn wynebu diffygion yn eu cyllideb, heb y cynigion;	Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20, roedd gan Ysgol Gelli Aur £73,962 yn ei chyllideb dros ben. Ni chaiff y cynnig hwn unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol bresennol yr ysgol.
• p'un a fydd unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol; a	Ni ragwelir y bydd arbedion refeniw yn deillio o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd cyllid sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i Ysgol Gelli Aur ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn cael ei ailddyrannu i'r ysgol newydd arfaethedig, yn unol â'r fethodoleg fformiwla gytûn.
• ph'un a fydd enillion gwerthiant (derbyniadau cyfalaf) safleoedd	Ni ragwelir y bydd derbyniadau cyfalaf yn deillio o'r cynnig hwn. Bydd yr ysgol bresennol (Ysgol Gelli Aur) yn parhau i weithredu fel ysgol cyfrwng Saesneg ar ôl rhoi'r cynnig hwn ar waith.

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hyrwyddo rheoli lleoedd ysgol yn effeithiol.	
1.6 Ffactorau eraill cyffredinol	
Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau cyffredinol canlynol:	
• beth fydd effaith y cynigion ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd;	Bydd sefydlu ysgol newydd yn galluogi i ystod lawn y ddarpariaeth fod ar gael i blant o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd.
• unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodwyd trwy asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; a	Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (sydd wedi'i gynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori), a nodwyd nad oes unrhyw effaith negyddol ar unrhyw grwpiau bregus na lleiafrifol. Felly, ni ddylai'r cynnig hwn arwain at unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon.
• ph'un yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw fuddiannau ymddiriedolaeth neu elusennol a allai gael eu heffeithio gan y cynigion, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir.	Ddim yn berthnasol
1.7 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion	
Ddim yn berthnasol	
1.8 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig	
Ddim yn berthnasol	
1.9 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu waredu dosbarthiadau meithrin	
Ddim yn berthnasol	
1.10 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu waredu dosbarthiadau chwech	
Ddim yn berthnasol	
1.11 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu darpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu sefydlu ysgol wirfoddol newydd	
Ddim yn berthnasol	

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
1.12 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid cyfrwng iaith	
Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:	
• y graddau y mae darpariaeth bresennol gan yr awdurdod lleol o addysg trwy gyfrwng y Saesneg a / neu'r Gymraeg yn rhagori ar, neu'n methu, bodloni'r galw neu'r galw arfaethedig gan rieni am y math hwnnw o ddarpariaeth, a'r cyfraniad y byddai'r cynnig yn ei wneud i gywiro'r sefyllfa honno.	Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn cynnwys gofynion ar awdurdodau lleol i baratoi cynllun strategol deng mlynedd (2021 – 2030) a fydd yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, cyflwyno a'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg; felly, bydd awdurdodau'n gallu cyfrannu'n sylweddol at Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Ymhlith targedau eraill, bydd angen i dargedau lleol o fewn y raddfa amser uchod ymrwymo i gynyddu canran y dysgwyr ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031. Mae'n bwysig nodi bod y targedau sy'n ddisgwyliedig o awdurdodau lleol wrth sicrhau ehangu yn ofynnol yn y sector cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na Chymraeg ail iaith. Yn Sir Benfro, mae'r targed hwn yn seiliedig ar gynyddu nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn 1 sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, o sylfaen o 19.9% yn 2017/2018 (CYBLD 2018) i 30% - 34% yn 2030; mae hyn yr un fath â chynyddu nifer y disgyblion o oddeutu 100 o ddisgyblion. Mae'r sylfaen a osodwyd gan ffrwd Gymraeg Ysgol Gelli Aur a'r cynnig ar gyfer ehangu ym Mhenfro yn rhan o gyfraniad y Cyngor tuag at yr uchelgais hwnnw.
• y graddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau mewn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdod lleol.	Bydd y cynnig yn cefnogi targedau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, a bydd yn darparu cyfleoedd i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Penfro; mae'r cynnig yn un i ymestyn darpariaeth o'r fath o Ffrwd Ddeuol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg annibynnol. Ystyrir y gellir ond ehangu'r ddarpariaeth os caiff ei chynnig o ysgol sy'n darparu'n unig ar gyfer addysgu plant 3-11 oed trwy gyfrwng y Gymraeg. O ran Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Benfro, mae'r cynnig yn cyflawni amcan i sicrhau lleoedd ychwanegol ar gyfer plant yn y sector cyfrwng Cymraeg.
1.13 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid categori ysgol	
Ddim yn berthnasol	
1.14 Ffactorau penodol i'w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu bennu cynigion i ad-drefnu darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig **Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:**	
Ddim yn berthnasol	
1.15 Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo / pennu cynigion trefniadaeth ysgolion	

FFACTORAU	TYSTIOLAETH
Wrth gymeradwyo cynigion, dyma ddylai cyrff perthnasol sy'n gweithredu fel y cynigiwr ei wneud:	
Rhaid iddynt ystyried p'un a oes yna unrhyw gynigion cysylltiedig eraill.	Nid oes yna unrhyw gynigion cysylltiedig.
Rhaid iddynt sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cod (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i gynigion i ddod ag ysgol fach i ben).	Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol yn unol â'r Cod.
Rhaid iddynt sicrhau bod y cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.	Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol yn unol â'r Cod ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.
Rhaid iddynt ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori.	Ystyriodd y Cyngor llawn y rhain yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2020.
Rhaid iddynt ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad sy'n gwrthwynebu, ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion.	Nid oes unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.
Dylent ystyried a oes yna unrhyw fanteision, yn achos cynnig i newid categori ysgol. Os na ellir nodi unrhyw fanteision, ni ddylid cymeradwyo cynigion o'r fath.	Ddim yn berthnasol
Rhaid iddynt beidio â chymeradwyo newid cynigion categori lle mae amrywiad yn y ddogfen ymddiriedolaeth yn angenrheidiol, ond nid yw wedi digwydd eto.	Ddim yn berthnasol